Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dŷ Coryton

## Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2022

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg

## a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Thŷ Coryton

Mae Tŷ Coryton yn darparu gwasanaeth dydd a phreswyl integredig arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng wyth ac un deg naw oed sydd wedi cael diagnosis o anhwylder y sbectrwm awtistiaeth (ASA), yn cynnwys ymddygiad heriol. Yn ychwanegol, mae gan lawer o ddisgyblion anawsterau lleferydd, cyfathrebu ac iaith, ac nid yw tua hanner y disgyblion yn cyfathrebu gan ddefnyddio lleferydd. Mae gan y mwyafrif ohonynt anawsterau dysgu difrifol. Mae 21 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG). Mae bron pob un o'r disgyblion presennol wedi eu lleoli gan awdurdodau yng Nghymru. Mae ychydig o dan hanner y bobl ifanc yng ngofal eu hawdurdod lleol.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn plasty mawr ar gyrion Caerdydd, a chaiff ei gweinyddu gan Orbis Education and Care. Mae pum disgybl yn byw yng nghartref plant Tŷ Coryton sydd ag adeilad pwrpasol ar wahân ar y safle.

Mae'r pennaeth addysg wedi bod yn ei swydd er mis Hydref 2018. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2020. Ers hynny, bu gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r cartref preswyl i blant ar y safle. Mae'r disgyblion hyn yn parhau i gael cymorth ysgol gan y staff gofal preswyl yn ystod y diwrnod ysgol. Er mwyn ymateb i'r cynnydd yn niferoedd y disgyblion dydd, bu cynnydd yn niferoedd y staff cymorth dysgu sy'n cael eu cyflogi a'u rheoli'n uniongyrchol gan yr ysgol.

Ym mis Ionawr 2022, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn gynnal arolygiad ffocysedig o'r ysgol, gyda ffocws penodol ar weithdrefnau diogelu'r ysgol, defnyddio a hyfforddi staff gofal preswyl a staff cymorth dysgu yn effeithiol, ac effaith hyn ar yr addysgu a'r profiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Asesodd arolygwyr gydymffurfiad yr ysgol ag agweddau perthnasol ar safonau 1 a 3 Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Yn ystod yr arolygiad, cynhaliodd arolygwyr deithiau dysgu, a buont yn siarad â disgyblion, yn cyfarfod â staff ac yn craffu ar gofnodion a dogfennau.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

- Mae'r diwylliant diogelu ar draws yr ysgol yn gryf. Mae staff yn gwybod wrth bwy i adrodd, sut i adrodd, a beth i adrodd. Cefnogir hyn yn dda gan ddatblygiad proffesiynol mynych ar gyfer staff, a monitro gan y pennaeth.
- Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno system electronig i adrodd, monitro a dadansoddi'r holl atgyfeiriadau diogelu. Mae hyn yn darparu gwybodaeth drylwyr a chyfoes ar gyfer arweinwyr. Gall pob un o'r athrawon fanteisio ar y system electronig, a chyflwynwyd yr hyfforddiant priodol i wella eu medrau wrth ddefnyddio'r system hon.
- Mewn gwersi, ac o gwmpas yr ysgol, mae awyrgylch digynnwrf a sefydlog. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n hyderus â'u staff addysgu ac ymwelwyr â'r ysgol. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu lles, eu medrau cymdeithasol a'u gwydnwch emosiynol.
- Mae staff addysgu yn meithrin perthnasoedd gweithio adeiladol gyda disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o hoffterau a chasbethau, ac yn hyrwyddo amgylchedd dysgu cadarnhaol. Maent yn darparu adborth calonogol ar lafar ac yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn frwdfrydig.
- Mae athrawon yn cynllunio'n hyblyg i adlewyrchu ystod eang iawn diddordebau a galluoedd y disgyblion. Maent yn addasu gweithgareddau cynlluniedig yn synhwyrol i ystyried anghenion disgyblion gan fod y rhain yn newid yn ystod y dydd.
- Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae hi wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion o'r arolygiad craidd. Er enghraifft, mae wedi cryfhau trefniadau ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol staff. Mae'n arwain trwy esiampl, yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff ac yn weladwy o gwmpas yr ysgol. Er gwaethaf y pwysau a achoswyd gan y pandemig, mae hi wedi llwyddo i greu ethos tîm cryf ar draws yr ysgol. Mae staff yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yng nghyflawniadau eu disgyblion.

### Meysydd i'w datblygu

- Cryfhau'r trefniadau ar gyfer y system rheoli traffig ym maes parcio'r ysgol.
- Adolygu a chryfhau ymagwedd bresennol y cwmni at gofnodi achosion yn ymwneud ag ymddygiad disgyblion.
- Egluro trefniadau ar gyfer y nifer fach o ddisgyblion nad ydynt yn bresennol yn gyson.
- Darparu tîm sefydlog o athrawon a staff cymorth i sicrhau dulliau cyson i gynorthwyo disgyblion.
- Cryfhau'r cysondeb yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol.
- Darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol rheolaidd a pherthnasol ar gyfer pob un o'r staff.
- Cryfhau'r systemau i gofnodi a monitro cynnydd disgyblion er mwyn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol.

- Sicrhau bod yr holl ddogfennau'n cael eu dyddio'n gyson.
- Gwella'r cysondeb mewn defnyddio arwyddo a systemau cyfathrebu mwyhaol gan bob un o'r staff ar draws yr ysgol.
- Sicrhau bod staff yn cynllunio defnyddio adnoddau'n effeithiol i wella'r amgylchedd dysgu.
- Sicrhau bod gan y cwmni drefniadau addas ar waith i gryfhau a chefnogi rolau a chyfrifoldebau uwch arweinyddiaeth ar draws yr ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2022:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/04/2022